Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru

17 Hydref 2012

Annwyl Carl

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14**

Ar ran y Pwyllgor Menter a Busnes, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod i'r cyfarfod pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Hydref er mwyn cynorthwyo â'n gwaith craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Ategwyd ein gwaith craffu eleni gan ddigwyddiad ymgysylltu a gynhaliwyd gennym ar 27 Medi. Yn ystod y digwyddiad hwnnw, siaradwyd ag ystod o sefydliadau am y blaenoriaethau yr hoffent eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft y Llywodraeth.

Hoffai'r Pwyllgor wneud nifer o argymhellion i chi, a hoffem gael ymateb ystyriol gennych yn eu cylch. Rydym hefyd yn anfon y llythyr hwn at Bwyllgor Cyllid y Cynulliad er mwyn llywio ei waith craffu strategol a chyffredinol ar y Gyllideb Ddrafft. Bydd ein llythyr ni a'ch ymateb chi iddo yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Clerc/Clerk: Dr Siân Phipps, Ffôn /Tel: 029 2089 8582
E-bost /Email: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

**Tryloywder yn y Gyllideb**
Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwelliannau a wnaed o ran y modd y cafodd dogfennau Llywodraeth Cymru ar y gyllideb eu cyflwyno eleni. Mae'r gwelliannau hyn yn golygu bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn llawer cliriach na'r wybodaeth a gafwyd y llynnedd. Croesawn y ffaith bod eich papur yn cynnwys manylion am ddyraniadau ar lefel llinellau gwariant yn y gyllideb, sy'n sicrhau mwy o eglurder ynghylch eich cynigion ar gyfer y gyllideb.

Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith a wnaed i ailstrwythuro cyllidebau yn eich portffolio trafnidiaeth er mwyn iddynt gyd-fynd yn well â blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mynegwyd y pryder hwn gennym mewn perthynas â'n gwaith craffu ar y gyllideb y llynedd, ac felly rydym yn nodi'r cynnydd a wnaed yn hynny o beth.

Rydym hefyd yn croesawu'r sylw a wnaethoch am gydgysylltu'n well gydag adrannau Gweinidogion eraill er mwyn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl mewn prosiectau trafnidiaeth sy'n effeithio ar feysydd polisi eraill.

**Fforddiadwyedd**
Nodwn fod naratif eich cyllideb ddrafft yn egluro bod ansicrwydd ynghylch y setliad ariannol a fydd yn dilyn yr adolygiad nesaf o wariant wedi eich atal rhag cyflwyno dyraniadau dangosol y tu hwnt i 2014-15.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud defnydd cynyddol o gynlluniau gweithredu blynyddol consortia trafnidiaeth rhanbarthol i weithredu ystod o fentrau, gan gynnwys y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a'r rhaglen diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r Papur Gwyn ar Fil Teithio Llesol (Cymru) hefyd yn rhagweld y bydd y consortia yn chwarae rôl ganolog yn y broses o sicrhau'r seilwaith cerdded a seiclo sydd ei angen, a hynny drwy greu cysylltiad statudol rhwng y mapiau seilwaith arfaethedig a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Yn sgîl y cyfrifoldebau ehangach sydd gan y Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol i weithredu rhaglenni, rydym felly'n holi ynghylch y gostyngiad mewn cyllid refeniw ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

1. **Yn garedig, cynigiasoch roi eglurhad ysgrifenedig o'r rhesymau cyfrifyddu dros y gostyngiad ymddangosiadol yng nghyllideb refeniw y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol o £11.5 miliwn yn 2012-13 i £0.5 miliwn yn y ddwy flynnedd nesaf. Rydym hefyd yn nodi'r gostyngiadau mewn cyllid cyfalaf ar gyfer y cynlluniau hyn**

**yn ystod yr un cyfnod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys asesiad o effaith y newid hwn yn eich nodyn, er mwyn i ni allu gwerthuso gwerth am arian yn y maes polisi hwn. Yn ogystal, hoffem glywed mwy am eich teimladau am Gyd-awdurdodau Trafnidiaeth, wrth iddynt ddatblygu.**

**Blaenoriaethu**

Nodwn fod eich paratoadau ar gyfer y Gyllideb wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cynlluniau gwario wedi'u halunio er mwyn gweithredu blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu.

Rydych yn datgan yn eich papur y bydd Bil Teithio Llesol (Cymru) yn cael ei gyflwyno ar ddechrau 2013. Cynigir y bydd gan awdurdodau lleol ddyletswydd i nodi a mapio'r llwybrau cerdded a seiclo sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac i greu rhwydwaith cwbl integredig o lwybrau "os bydd y cyllid ar gael". Rydych hefyd yn datgan eich bod yn adolygu'r grantiau cyfredol sydd ar gael ar gyfer cerdded a seiclo er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r dasg o weithredu'r Bil, ac y bydd costau'r Bil yn cael eu talu drwy ailflaenoriaethu a chydgrynhoi'r cyllidebau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer teithio llesol/cerdded a seiclo.

2. **Hoffem i chi egluro, cyn gynted â phosibl, sut yr ydych yn blaenoriaethu cerdded a seiclo, y sail resymegol yr ydych yn ei defnyddio i brif-ffrydio teithio llesol i feysydd cyllidebol eraill, a sut yn union y bydd Bil Teithio Llesol (Cymru) yn cael ei ariannu wedi iddo ddod i rym.**

3. **Yn benodol, hoffem wybod sut y bydd awdurdodau lleol a'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu hariannu i gyflawni eu dyletswyddau newydd o dan y Bil.**

4. **Er mwyn ein helpu i ddeall a ydych yn cyflawni eich amcanion o ran gweithredu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ni bob chwe mis am sut y mae pob amcan yn cael ei weithredu, a hynny ym mis Mehefin a mis Rhagfyr bob blwyddyn.**

**Gwerth am arian**

Ym mis Chwefror 2012, gofynasom i chi nodi pa ddangosyddion allweddol y byddech yn eu defnyddio i fesur llwyddiant y cynllun ariannu bysiau newydd ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Eich ymateb bryd hynny oedd ei bod yn rhy

gynnar i wneud sylwadau ar y mater, ond dywedasoch y byddech yn ystyried y dangosyddion perfformiad allweddol unwaith y byddai'r trafodaethau'n datblygu. Nodwn y sylwadau a wnaed gennych ar 11 Hydref, sef nad ydych wedi gwneud unrhyw benderfyniadau pendant hyd yn hyn ynghylch monitro effaith y trefniadau ariannu newydd. Rydym yn ddiolchgar ichi am rannu eich syniadau cychwynnol ynghylch defnyddio gwybodaeth o beiriannau tocynnau i gasglu gwybodaeth am wasanaethau. Serch hynny, mae'n anodd inni graffu ar y mater hwn mewn modd effeithiol, o gofio bod trafodaethau â phartneriaid eraill yn parhau i fynd rhagddo.

5. **Diolch am gytuno i ddarparu nodyn am y newidiadau i'r system ariannu bysiau a'r hyn y maent yn eu golygu i'r cwsmer. Hoffem ichi roi rhagor o eglurder inni ynghylch sut y byddwch yn monitro *a* gwerthuso effaith y trefniadau newydd ar gyfer ariannu bysiau ar lefelau gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw oblygiadau cymdeithasol ac economaidd a allai ddeillio o'r cynllun.**

6. **Yn ogystal, hoffem ichi egluro sut y bydd cynlluniau teithio rhatach yn cael eu hariannu o 2014-15 ymlaen, unwaith y bydd y trefniadau ariannu presennol yn dod i ben.**

Nid yw llawer o bobl hŷn ac anabl yn gallu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gonfensiynol.

7. **Hoffem gael gwybod sut y bydd trafnidiaeth gymunedol yn cyd-fynd â'ch strategaeth drafnidiaeth gyffredinol.**

8. **A allech nodi hefyd sut y bydd prosiectau peilot teithio rhatach ar drafnidiaeth gymunedol yn cael eu hariannu unwaith y bydd y prosiectau hynny'n cael eu hadolygu, yn ogystal ag effeithiau unrhyw newidiadau?**

9. **Hoffem gael gwybod hefyd am ba drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal â chydweithwyr eraill i werthuso'r effaith y bydd y newidiadau i'r gyllideb drafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol, yn eu cael ar y dasg o weithredu ymrwymiadau polisi iechyd ledled Cymru.**

**Prosesau cyllidebol**

Mae cynllun cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fynd "i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag defnyddio

trafnidiaeth gan eu galluogi i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cyflogaeth, gweithgareddau hamdden a gweithgareddau cymunedol."

10. **Hoffem ichi egluro sut y bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn eich dyraniadau. Yn ogystal, gofynnwn ichi ddarparu manylion pellach am y materion a nodwyd mewn perthynas â thrafnidiaeth yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft. Yn benodol, pa gamau a gymerwyd i liniaru'r effeithiau hyn?**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi datgan ei fod yn ystyried sut y mae'r broses o bennu'r gyllideb yn cael ei wir ysgogi gan ddatblygu cynaliadwy.

11. **A gyflawnwyd arfarniad datblygu cynaliadwy fel rhan o'r broses o gynllunio'r Gyllideb, ac os felly, pa newidiadau a wnaed o ganlyniad i hyn?**

Yn olaf, wrth sgwrsio gyda'n rhanddeiliaid yn ystod y digwyddiad gwibrwydweithio a gynhaliwyd ar 3 Hydref, awgrymwyd bod angen cael trafodaeth fwy agored a gonest a bod angen cyfathrebu'n well ac yn gynt â'r sector gwirfoddol ynghylch penderfyniadau cyllidebol. Mynegwyd pryder hefyd fod rhai sefydliadau gwirfoddol, er gwaethaf setliad ariannol tair blynedd y Llywodraeth, yn parhau i gael eu hariannu'n flynyddol, a bod y sefyllfa hon yn peri ansicrwydd ac ansefydlogrwydd i'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed.

12. **Wrth ymateb, a allech ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu gwella prosesau cyllidebol eich adran er mwyn diwallu anghenion eich partneriaid yn y sector gwirfoddol. Byddai gennym ddiddordeb penodol mewn gwybod sut yr ydych yn bwriadu cyfaethrebu'n well ac yn gynt am benderfyniadau cyllidebol.**

Diolch am gynorthwyo â gwaith y Pwyllgor, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

Nick Ramsay AC, Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

c.c. Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid